# Cyflwyno ymyriadau gyda'r nod o gynorthwyo unigolion sydd mewn perygl o niwed

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu cymorth ac ymyriadau wedi'u cynllunio i unigolion y nodir bod perygl o niwed iddynt gan bobl eraill.

Bydd yr ymyrraeth wedi cael ei datblygu i fynd i'r afael ag anghenion unigolion ac i reoli'r ffactorau risg ac amddiffynnol a nodwyd gan broses asesu briodol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys asesiadau, ynghylch yr unigolyn ac unrhyw ddibynyddion, gan adolygu'r ffactorau risg ac anghenion canfyddedig unigolion
2. nodi camau gweithredu sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â'r ffactorau risg a gwella'r ffactorau amddiffynnol a fydd yn lleihau risg niwed i unigolion
3. nodi a gweithio gyda phobl eraill berthnasol, fel y bo'n briodol, i sicrhau llwyddiant ymyriadau, i ddatblygu a chytuno ar gyfrifoldebau a chamau gweithredu
4. cael gwybodaeth berthnasol am y cymorth sydd i'w ddarparu i unigolion a sut mae'n canolbwyntio ar y ffactorau risg a nodwyd ar eu cyfer
5. cadarnhau bod pawb yn deall y gwahanol rolau a chyfrifoldebau, a fformat a nodau'r cymorth sy'n cael ei ddarparu
6. gwirio bod y bobl sy'n gyfrifol am gyflwyno ymyriadau yn deall yr holl gamau gweithredu ac amserlenni, a'u bod wedi cytuno iddynt
7. darparu gwybodaeth berthnasol i unigolion am yr ymyrraeth
8. cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n briodol i unigolion a gwirio'u bod yn deall, gan eu trin gydag urddas a pharch
9. cyfeirio unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd y tu hwnt i faes eich cyfrifoldeb at bobl briodol eraill
10. nodi a chytuno ar y meini prawf a ddefnyddir i werthuso llwyddiant y cymorth, a'r dulliau ar gyfer monitro'r rhain
11. gwirio bod yr ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith yn unol â'r fformat a'r amserlen y cytunwyd arnynt
12. trafod a chytuno ar ymyriadau gyda'r unigolyn
13. asesu cynnydd yr ymyrraeth a'i drafod gydag unigolion
14. adrodd ar addasrwydd yr ymyrraeth wrth fynd i'r afael ag anghenion unigolion gan nodi unrhyw bryderon ac argymhellion rhesymedig am weithredu
15. mynd i'r afael ag unrhyw broblemau neu newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar ddiogelwch, iechyd a lles unigolion
16. annog adborth gan unigolion am yr ymyrraeth ac ymateb yn briodol
17. darparu cyngor cyfredol, gan gynnwys manylion cyswllt brys, lle bo angen, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
18. cynnal cofnodion cyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. rolau asiantaethau eraill wrth ddarparu cymorth ac ymyriadau i unigolion
4. gweithdrefnau rheoli achosion sy'n cael eu defnyddio gan eich sefydliad a'ch cyfrifoldebau o fewn y rhain
5. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
6. dulliau o asesu risg niwed i unigolion
7. yr ystod o ymyriadau sydd ar gael a sut i amddiffyn unigolion rhag niwed
8. y wybodaeth sy'n angenrheidiol wrth wneud asesiad o unigolion
9. sut i greu amgylchedd sy'n gwneud i unigolion deimlo'n gartrefol
10. sut i gymhwyso ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn eich maes gwaith
11. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
12. sut i gymhwyso dull dan arweiniad anghenion, seiliedig ar gryfderau, yn benodol i fodloni anghenion yr unigolyn
13. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
14. ffynonellau gwybodaeth perthnasol am unigolion a sut i gael at y rhain
15. ffactorau sy'n effeithio ar freguster unigolion sydd mewn perygl o niwed
16. mathau o freguster, neu lefelau niwed, y dylid eu hystyried wrth asesu risg a'u dangosyddion
17. dangosyddion cyffredin a all awgrymu problemau iechyd meddwl a'r camau i'w cymryd
18. asiantaethau y gellid atgyfeirio unigolion iddynt am gymorth â'u hiechyd meddwl, a sut i'w hatgyfeirio
19. yr amgylchiadau pan ystyrir fod risg i unigolion, sydd angen cymorth arbenigol, a sut i symud ymyrraeth o'r fath yn ei blaen
20. yr ystod o arddulliau a thechnegau cyfathrebu sydd ar gael, gan gynnwys pryd a sut i'w haddasu
21. pwysigrwydd cyfathrebu dieiriau, a sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffyrdd gwahanol
22. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gydag unigolion a dulliau o gyflawni hyn
23. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn

24. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a'ch credoau eich hun, a'u heffaith ar eich gallu i herio agweddau ac ymddygiad sy'n gwahaniaethu neu a allai fod yn niweidiol
25. cyfyngiadau cyfrinachedd sy'n berthnasol i'ch rôl a'r amgylchiadau pan mae angen mynd yn groes i ddymuniadau unigolion gan sicrhau eu bod yn deall beth sy'n digwydd a pham
26. sut i gynnal cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

SFJBE102

Cyflwyno ymyriadau gyda’r nod o gynorthwyo unigolion sydd mewn perygl o niwed

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 26 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SfJ BE102 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaethau Cyhoeddus, Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i’r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | Cyflwyno, ymyriadau, cynorthwyo, dioddefwyr, mewn perygl, niwed difrifol |